# Sefydliad Gofal Cyhoeddus

## Tystysgrif Ôl-radd Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol

## Rhaglen a Llawlyfr Myfyrwyr 2023 – 2024

Cod JACS: L590

Cod HECoS: 100501

# Table of Contents


**1. Cyflwyniad a throsolwg o'r rhaglen 4**

**2. Canlyniadau dysgu'r rhaglen 8**

2.1. Llythrennedd Academaidd 8

2.2. Ymchwil i lythrennedd 8

2.3. Hunan-ymwybyddiaeth feirniadol a llythrennedd personol 8

2.4. Llythrennedd digidol a gwybodaeth 8

2.5. Dinasyddiaeth weithredol 9

**3. Gofynion mynediad 9**

**4. Addysgu, dysgu ac asesu 10**

4.1. Addysgu a dysgu 10

4.2. Asesu 10

4.3. Graddau, Marcio a Safoni 11

4.4. Amgylchiadau Eithriadol 12

4.5. Cyfrinachedd 12

4.6. Polisi Iaith 13

**5. Modiwl WFPC7001 Cyflwyniad i Reoli Ansawdd Ymarfer 13**

5.1. Canlyniad Dysgu Modiwl 13

5.2. Cynnwys y Modiwl 14

5.3. Amcan o'r Oriau Dysgu 15

5.4. Tasg Asesu Modiwl 15

5.5. Defnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) 16

5.6. Hanes Dilysu'r Modiwl 16

**6. Modiwl W WFPC7002 Cadarnhau Perfformiad ac Ansawdd 16**

6.1. Canlyniad Dysgu Modiwl 17

6.2. Cynnwys y Modiwl 17

6.3. Amcan o'r Oriau Dysgu 18

6.4. Tasg Asesu'r Modiwl 18

6.5. Hanes Dilysu'r Modiwl 19

**7. Modiwl WFPC7003 Arwain a Rheoli ar gyfer Ansawdd 19**

7.1. Canlyniadau Dysgu'r Modiwl 19

7.2. Cynnwys y Modiwl 20

7.3. Amcan o'r Oriau Dysgu 20

7.4. Asesu'r Modiwl 20

7.5. Hanes y Dilysu 21
**8. Rheoli ac adolygu rhaglen 21**
8.1. Cynrychiolaeth y myfyrwyr 22
**9. Cymorth i Fyfyrwyr 22**
9.1. Tiwtoriaid a gweinyddwyr IPC 22
9.2. Strwythurau Cymorth y Brifysgol 23
9.3. Adnoddau Dysgu 24
9.4. Siarter Brookes 26
**10. Rheoliadau rhaglen 26**
10.1. Amodau'r Dyfarniad 26
10.2. Ail-gyflwyno 26
10.3. Ail-sefyll 27
10.4. Ymestyn y Dedleins 27
10.5. Hyd a Dull Astudio 27
10.6. Tynnu Nôl o'r Rhaglen a Gweithdrefnau Priodoldeb 27
10.7. Achredu Dysgu a Phrofiad Blaenorol 28
10.8. Arfer Academaidd 28
10.9. Apeliadau 29
10.10. Pryderon a Chwynion 29
**Tystysgrif Ôl-radd Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol 31**
Cytundeb rhwng y Myfyriwr a'r Asiantaeth Gyflogi 31

# Tystysgrif Ôl-radd Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol

## 1. Cyflwyniad a throsolwg o'r rhaglen

Darperir Tystysgrif Ôl-radd Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (Institute of Public Care - IPC) sy'n rhan o Gyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Oxford Brookes.

Yn IPC rydyn ni'n darparu ymchwil a gwerthuso cymhwysol, ymgynghoriaeth, a hyfforddiant i helpu ymddiriedolaethau'r GIG, cyrff y llywodraeth, cynghorau, elusennau a sefydliadau masnachol i gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl. Os hoffech chi ddarganfod mwy am waith IPC ewch ar y wefan: https://ipc.brookes.ac.uk/.

Comisiynwyd IPC i gyflenwi'r rhaglen genedlaethol hon gan gorff Gofal Cymdeithasol Cymru mewn ymgynghoriaeth â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a chymeradwyir y cwrs gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau ei fod yn cynorthwyo gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwaith cymdeithasol, datblygu rheolaeth a helpu i wella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau yng Nghymru. Mae'r rhaglen wedi ei hanelu ar gyfer rheolwyr llinell flaen ac uwch ymarferwyr. Rôl sylfaenol y rhaglen fydd:

- Helpu rheolwyr i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r elfennau allweddol sy'n dylanwadu ar arfer ansawdd gwasanaeth cymdeithasol.
- Helpu rheolwyr i ddatblygu eu sgiliau beirniadol ac i wneud gwell penderfyniadau wrth reoli achosion.
- Galluogi rheolwyr i ddefnyddio ystod o offer a thechnegau i wella Ansawdd Ymarfer o fewn eu timoedd ac i ddatblygu eu gallu i reoli ansawdd o fewn lleoliadau gofal cymdeithasol.

Rhaid gwella ansawdd gwasanaethau er mwyn diwygio gofal cymdeithasol a rheolwyr rheng flaen ac uwch ymarferwyr sy'n gyfrifol am y gwelliant hwn ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Cynlluniwyd y rhaglen yn benodol i helpu rheolwyr rheng flaen ac uwch ymarferwyr mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i wella'r rheolaeth ar arfer ansawdd ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â chyflogwyr ac mewn ymgynghoriad â staff gofal cymdeithasol a defnyddwyr y gwasanaethau yng Nghymru.

Pwrpas y llawlyfr hwn ydy rhoi gwybodaeth i chi sy'n tanategu cynllun, cyflwyniad a rheolaeth eich cwrs. Dylech ymgyfarwyddo â'r cynnwys ac yna siarad â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau. Nid dyma'r unig lawlyfr sydd ar gael i chi. Ochr yn ochr â'r llawlyfr hwn mae yna hefyd Lawlyfr y Brifysgol, sy'n rhoi gwybodaeth i chi am bolisïau a rheoliadau'r Brifysgol yn ogystal â gwasanaethau cymorth a lles myfyrwyr sydd ar gael i chi.

Astudir y Dystysgrif Ôl-radd dros gyfnod o ddeunaw mis. Mae iddi dri modiwl gorfodol, i gyd ar lefel 7. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, byddwch yn ennill Tystysgrif Ôl-radd mewn Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol – gwerth 60 credyd Cynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau (CATS) ar lefel 7 ôl-radd i helpu eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD). Isod, gwelir tabl o strwythur y rhaglen. Mae'r modiwl 'Cyflwyniad i Reoli Ansawdd Ymarfer' (WFPC7001) yn rhag-ofyniad neu gyn-ofyniad i'r modiwlau eraill. Golyga hyn na allwch gychwyn modiwlau eraill os nad ydych wedi cychwyn hefyd ar WFPC7001.

| Enw'r Modiwl | Cod y Modiwl | Credydau | Statws |
|---|---|---|---|
| Cyflwyniad i Reoli Ansawdd Ymarfer | WFPC7001 | 20 | Gorfodol |
| Cadarnhau Perfformiad ac Ansawdd | WFPC7002 | 20 | Gorfodol |
| Arwain a Rheoli ar gyfer Ansawdd | WFPC7003 | 20 | Gorfodol |

Mae'r rhaglen yn cychwyn gyda gweithgareddau paratoi manwl ac ymglymu, gan gynnwys seminar cychwynnol ar-lein ar eich cyfer chi a'ch rheolwr llinell. Yna gofynnir i chi gwblhau asesiad 360 gradd cyn dechrau'r modiwl cyntaf. Holiadur ar-lein yw'r asesiad 360 gradd y bydd gofyn i chi a'ch rheolwr llinell a rhai o'ch cydweithwyr ei gwblhau. Bydd yn eich helpu i ddatblygu cynllun datblygiad personol sy'n rhoi manylion o'ch anghenion dysgu. Bydd angen i'ch rheolwr llinell gytuno ar gynllun datblygiad personol yn seiliedig ar ei adnabyddiaeth ohonoch yn y gweithle er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys amcanion datblygiad sy'n addas. I ennill y dyfarniad bydd angen i chi gwblhau'r asesiad 360 gradd a'r cynllun datblygiad personol. Fodd bynnag, fydd y rhain ddim yn cael eu graddio nac yn cyfrannu at eich gradd derfynol.

Mae pob un o dri modiwl y rhaglen yn cynnwys sesiynau dysgu grŵp ar-lein, setiau dysgu gweithredol cynorthwyedig a gwaith asesedig. Byddwch yn cael sesiynau dysgu ysgogol grŵp ar gyfer pob modiwl sy'n cyfuno theori ag astudiaeth achos ac ymarferion cymhwyso ymarferol. Byddwch hefyd yn cael sesiynau dysgu ysgogol grŵp ar gyfer pob modiwl a chael sesiwn cymorth unigol gydag Ymgynghorydd Academaidd er mwyn sicrhau eich bod yn gallu defnyddio'r hyn a ddysgoch yn effeithiol yn eich gweithle.

Byddwch hefyd yn ymgymryd ag asesiadau ar gyfer pob modiwl a bydd y rhain yn cyfrannu at radd derfynol eich dyfarniad – gweler adran 4 am ragor o wybodaeth ar asesu, graddau a marcio. Rydyn ni'n eich annog i gwblhau'ch aseiniadau a derbyn cymorth unigol yn y Gymraeg. Gosodir a chytunir ar yr asesiadau yng nghyd-destun eich gwaith ac felly gellir eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich asiantaeth gyflogi. Ar gyfer modiwl WFPC7002- Cadarnhau Perfformiad ac Ansawdd – byddwch yn gwneud prosiect seiliedig ar waith, a gofynnir i'ch rheolwr llinell ddarparu datganiad arsyllu am eich gwaith ar y prosiect hwn.

Daw'r rhaglen i ben gydag arfarniad o weithgareddau'r rhaglen a'ch anghenion dysgu, gan gynnwys ailedrych ar yr asesiad 360 gradd a'ch cynllun datblygiad personol.

Isod, ceir diagram yn crynhoi gweithgareddau'r rhaglen.

## Sefydlu a Chychwyn Rhaglen

- Enwebu'r ymgeiswyr
- Seminar cyn cychwyn ar y rhaglen ar gyfer yr ymgeiswyr, a'u rheolwyr llinell
- Cwblhau asesiad 360 gradd a chynllun datblygiad personol
- Adolygiad o'r cynllun datblygiad personol gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd

**Cyflwyniad i Reoli Ansawdd Ymarfer**

- Cyflwyniad i Ansawdd Ymarfer
- Defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ganolog i wella ansawdd
- Rheoli'r galw a'r gallu

Sesiynau ar gyfer grŵp ac unigolion:

- Cymorth â'r Aseiniad
- Setiau dysgu gweithredol
- Cyfarfod cymorth 1:1

Amser astudio unigol

**Asesiad:**

**Aseiniad asesedig ysgrifenedig**

**Cadarnhau Perfformiad ac Ansawdd**

- Hyrwyddo a chynnwys ymarfer ar sail cyflwyno tystiolaeth
- Rheoli perfformiad
- Dilysu perfformiad - rôl archwilio ac adolygu gwasanaethau

Sesiynau ar gyfer grŵp ac unigolion:

- Cymorth â'r Aseiniad
- Setiau dysgu gweithredol
- Cyfarfod cymorth 1:1

Amser astudio unigol

**Asesiad:**

Prosiect asesedig ar sail gwaith, gyda arsylliad eich rheolwr o'ch ymarfer

**Arwain a Rheoli ar gyfer Ansawdd**

- Arweinyddiaeth tîm mewn gofal cymdeithasol
- Gwella a rheoli perfformiad timau ac unigolion
- Arwain a chynorthwyo newid

Sesiynau ar gyfer grŵp ac unigolion:

- Cymorth â'r Aseiniad
- Setiau dysgu gweithredol
- Cyfarfod cymorth 1:1

Amser astudio unigol

**Asesiad:**

Astudiaeth achos asesedig a chyflwyniad seiliedig ar y gweithle

## Gwerthuso

- Cwblhau asesiad 360 gradd ac adolygu'r cynllun datblygiad personol
- Gwerthuso'r cwrs ac anghenion dysgu

Ethos y rhaglen ydy cynorthwyo dysgu myfyrwyr drwy bartneriaeth weithio yn cynnwys y myfyriwr, yr asiantaeth sydd yn ei g/chyflogi a'r IPC fel darparwr y rhaglen. Mae gan yr asiantaethau sy'n cyflogi ymglymiad parhaus yn y rhaglen a bydd y grŵp myfyrwyr yn cynorthwyo ei gilydd drwy gydol y rhaglen i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arferion. Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ddatblygu'n personol ond hefyd i ymgorffori'r dulliau o fynd ati a'r sgiliau a ddysgwyd ar y rhaglen yn eu sefydliad eu hun. Mae'r dull yn cydbwyso anghenion personol yn ogystal ag anghenion datblygu sefydliadol.

# 2. Canlyniadau dysgu'r rhaglen

Ar ôl cwblhau'r rhaglen byddwch yn arddangos y Priodoleddau Graddedigion Brookes canlynol ar lefel ôl-radd:

## 2.1. Llythrennedd Academaidd

- Gwybodaeth fanwl o'r agenda cenedlaethol sy'n dylanwadu ar Ansawdd Ymarfer ym maes gofal cymdeithasol a dealltwriaeth gritigol o'r goblygiadau i'ch tîm a/neu i'ch sefydliad.
- Arddangos dealltwriaeth gritigol o egwyddorion a theorïau rheoli Ansawdd Ymarfer ym maes gofal cymdeithasol.
- Dadansoddi trefniadau Ansawdd Ymarfer eich tîm a/neu'ch sefydliad a gwneud hynny yn gritigol.

## 2.2. Ymchwil i lythrennedd

- Gwerthuso arferion cyfredol o ran eich prosiect Ansawdd Ymarfer yn y gweithle a gwneud hynny'n gritigol.
- Defnyddio technoleg briodol i chwilio a gwerthuso gwybodaeth sy'n berthnasol i Ansawdd Ymarfer ym maes gofal cymdeithasol yn gritigol.
- Defnyddio dysg ar sail tystiolaeth i weithredu arferion da.

## 2.3. Hunan-ymwybyddiaeth feirniadol a llythrennedd personol

- Dadansoddi a gwerthuso cymhwysedd personol a dylunio a rheoli strategaeth eich datblygiad personol eich hun.
- Arddangos sgiliau dysgu, gan gynnwys dysgu'n annibynnol, datrys problemau a gwneud penderfyniadau.
- Darparu ystyriaeth gritigol ar ddysgu ac ymarfer unigolion a sefydliadau.

## 2.4. Llythrennedd digidol a gwybodaeth

- Cyflwyno dadleuon wedi'u strwythuro a chyfleu gwaith a chanfyddiadau i eraill.
- Defnyddio technoleg briodol i chwilio am wybodaeth sy'n berthnasol i Ansawdd Ymarfer ym maes gofal cymdeithasol a gwerthuso'r gyfryw wybodaeth yn gritigol.

- Gwneud gweithgareddau dysgu ar-lein, datblygu hyder mewn galluoedd dysgu ym maes e-ddysgu.

### 2.5. Dinasyddiaeth weithredol

- Darparu rhesymwaith ar gyfer eich prosiect Ansawdd Ymarfer yn y gweithle, gan gynnwys mewnbwn defnyddwyr gwasanaeth i ystod, dyluniad neu ddatblygiad y prosiect.
- Y gallu i reoli timoedd sy’n cyflenwi canlyniadau da ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol o ran safbwyntiau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol lleol a chenedlaethol.

## 3. Gofynion mynediad

Anelir y rhaglen at reolwyr tîm ac egin reolwyr mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, gan gynnwys uwch ymarferwyr. Fel arfer bydd disgwyl i chi feddu ar y canlynol:

- Cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig mewn gwaith cymdeithasol (neu gymhwyster tebyg ar gyfer staff gwaith heb fod yn waith cymdeithasol) ac wedi’ch cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Cyngor Cyffredinol ar Ofal Cymdeithasol, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban neu Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (neu gorff tebyg ar gyfer staff gwaith heb fod yn waith cymdeithasol lle bo’n briodol).
- Tair blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso.
- Mewn swydd rheoli rheng flaen neu’n uwch ymarferwr mewn lleoliad gofal cymdeithasol yng Nghymru neu wedi’ch dynodi fel ‘egin arweinydd’ gyda dilyniant gyrfa o’ch blaen ac yn cael cefnogaeth y sefydliad sy’n eich cyflogi.
- Y gallu i astudio ar lefel ôl-radd.

Mae disgwyl i’ch asiantaeth gyflogi ddarparu cymorth priodol ar eich cyfer tra byddwch yn astudio ar y rhaglen ac yn arbennig bod eich rheolwr llinell yn eich cynorthwyo drwy gydol y rhaglen drwy gynnig cyngor ffurfiol ac anffurfiol, cymorth, cytundeb - - ac ar sylwi ar – brosiect yn y gweithle ac adolygu’r cynnydd ar asesiadau. Trafodir yn fanwl pa gymorth sydd ei angen yn ystod y seminar cyn cychwyn ar y rhaglen. Bydd disgwyl i chi a’ch cyflogwr gwblhau cytundeb ysgrifenedig cyn ymrestru ar y rhaglen i gytuno ar y canlynol:

- Eich rheolwr llinell neu ddirprwy addas yn ymrwymo i’ch cynorthwyo drwy gydol y rhaglen.
- Y cewch amser rhydd i astudio a chwblhau’ch aseiniadau.
- Hysbysu’r IPC o unrhyw anghenion mynediad neu gyfathrebu sydd angen arnoch sy’n berthnasol i’r rhaglen.
- Y byddwch yn mynychu pob diwrnod cymorth a addysgir ac a hyrwyddir ar y rhaglen.
- Y byddwch yn cyflwyno’ch gwaith asesedig ar y dyddiad cau a osodir.

- Y cewch fynediad i’r rhyngrwyd er mwyn i chi allu lawrlwytho’r adnoddau addysgu a dysgu, a mynychu’r rhith sesiynau ac yn cyflwyno'r gwaith asesedig a chael cymorth i allu defnyddio technoleg gwybodaeth i gysylltu â Rhith-Amgylchedd Dysgu'r Brifysgol (Moodle).

Ceir copi o’r cytundeb ysgrifenedig yn **atodiad 1**.

Mae IPC yn croesawu trafodaeth cyn gynted â phosibl ar unrhyw ohebiaeth benodol neu anghenion mynediad sydd gan fyfyrwyr o ran y rhaglen hon. P'un ai ydy’r rhain yn ymwneud â’r lleoliad, neu waith cwrs, ai peidio, cysylltwch â Gweinyddwr Cwrs IPC i fynegi’ch anghenion.

# 4. Addysgu, dysgu ac asesu

## 4.1. Addysgu a dysgu

Nod y rhaglen ydy hyrwyddo amgylchedd cefnogol lle mae myfyrwyr a thiwtoriaid yn cydweithio i ddatblygu’r dysgu. Mae strategaeth addysgu, dysgu ac asesu y rhaglen yn adlewyrchu ei ddull o ffocysu ar y myfyrwyr ac ar ymarfer. Anogir cyfleoedd i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd ac, er mwyn manteisio ar y rhain o fewn y grŵp, a defnyddir amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu:

- Defnyddir gweithgareddau grŵp (e.e. setiau dysgu gweithredol a seminarau) i rannu gwybodaeth, profiad a sgiliau a datblygu sgiliau beirniadol.
- Anogir hunan-fyfyrio beirniadol fel dull o gadw’r ffocws ar ddatblygu arferion yr unigolyn.
- Cewch gyfle i drafod fanylion penodol yr aseiniadau er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i ddatblygiad eich sefydliad.
- Defnyddir sesiynau cymorth unigol i sicrhau eich bod yn gallu rhoi eich dysg ar waith yn effeithiol yn y gweithle.

Lluniwyd y modiwlau i hyrwyddo lefel ôl radd o sgiliau astudio gan gynnwys y gallu i hunan-fyfyrio. Mae hunan-fyfyrio fel modd o ddysgu yn sylfaenol i’r rhaglen. Drwy gydol y rhaglen, byddwch yn defnyddio arferion adfyfyrio yn unigol ac mewn grwpiau yn ystod setiau 'dysgu drwy wneud' (action learning) ac o fewn y sesiynau addysgu modiwl.

## 4.2. Asesu

Mae asesu yn cwmpasu’r holl dyfarniadau a wnaed am eich gwaith a/neu’ch sgiliau, eich galluoedd a’ch cynnydd a’r adborth a ddarperir. Rydyn ni’n eich asesu am amrywiaeth o resymau – ysgogiad, i roi adborth, i raddio gwaith ac i ddangos bod y canlyniadau dysgu wedi cael eu cyflawni. Mae'r rhaglen yn dilyn egwyddorion rheoliadau asesu'r brifysgol (https://www.brookes.ac.uk/regulations/) i sicrhau arfer dda a thryloywder yn y prosesau asesu ac adborth. Mae yna wahanol ddulliau o asesu. Dydy asesu ffurfiannol ddim yn cyfrannu at eich gradd gyffredinol ac yn bennaf ei fwriad ydy’ch helpu i ddysgu h.y. rhoi adborth i chi y gallwch ei defnyddio i

wella'ch perfformiad yn y dyfodol. Gwaith wedi'i farcio ydy asesiad crynodol ac mae'n cyfrif tuag at eich gradd derfynol. Gwaith cwrs ydy asesiadau crynodol: does dim arholiadau.

Rydyn ni'n defnyddio ystod o dasgau asesu ffurfiannol, gan gynnwys:

- Ymarfer marcio i asesu gwaith dychmygol myfyrwyr neu waith myfyrwyr blynyddoedd blaenorol yn erbyn cynllun asesu asesiadau crynodol.
- Cyflwyniad addysgiadol – fel rhan o set dysgu gweithredol – i drafod mater ym maes Ansawdd Ymarfer
- Hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn ystod y rhaglen ac ar ddiwedd y rhaglen gan ddefnyddio'r asesiad 360 gradd.
- Cyflwyniad ffurfiannol ond gorfodol o amlinelliad prosiect a chynllun prosiect ar gyfer eich prosiect arfaethedig y byddwch chi'n ei ddefnyddio ar gyfer yr arsylwad ymarfer asesiad datganiad crynodol gan eich rheolwr llinell.
- Cyflwyniad ffurfiannol ond gorfodol o gynllun datblygiad personol

Ddarperir sesiwn briffio grŵp ar -lein a dau rith diwtorial unigol gydag Ymgynghorydd Academaidd ar gyfer pob modiwl; nod hyn ydy'ch helpu i ddeall y dasg asesu crynodol, cytuno ar ffocws yr asesiad crynodol a chymhwyso sgiliau astudio effeithiol.

Cewch sesiwn briffio am y dasg asesu a gosodir dyddiad pendant i gyflwyno'r gwaith i'w asesu, ond yn fras, bydd dedlein yr asesiad tua pedwar mis ar ôl y sesiwn honno. Mae'r wybodaeth am y dasg asesu a deunyddiau dysgu eraill ar gael i chi eu lawrlwytho o Rith Amgylchedd Dysgu'r Brifysgol (Moodle), gan gynnwys y rhestrau darllen cyfredol ar gyfer y modiwl.

Ar gyfer pob modiwl, cewch gyfle i gael 'rhith' diwtorial (galwad ffôn neu ar fideo) gydag Ymgynghorydd Academaidd ychydig o wythnosau ar ôl y sesiwn briffio. Bydd eich Ymgynghorydd Academaidd yn rhoi adborth i chi o'r tiwtorial ac ar fraslun eich prosiect a'ch cynllun os yw'n berthnasol. Hefyd, cewch gyfle i gael 'rhith' diwtorial arall gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd cyn bod rhaid i chi gyflwyno'ch asesiadau crynodol.

## 4.3. Graddau, Marcio a Safoni

50% ydy marc pasio ar gyfer pob modiwl ac felly ar gyfer y dyfarniad yn gyflawn, ac mae'r graddau canlynol yn berthnasol i fodiwlau:

- Rhagoriaeth ydy 70% ac uwch
- Teilyngdod ydy 60 – 69%
- Pas ydy 50 – 59%
- Methu ydy 0 – 49%

Caiff eich gwaith ei asesu yn ganrannol a bydd pob maen prawf yn cael gradd fel yr uchod. Eich gradd ar gyfer pob modiwl fydd cyfartaledd pwysol y graddau a roddir i'r meini prawf. Mae matrics graddio modiwl ar gael i chi ei lawrlwytho o Amgylchedd

Dysgu Rhithwir y Brifysgol (Moodle), sy'n diffinio'r lefel perfformiad gofynnol fesul gradd ar gyfer pob maen prawf asesu.

Byddwch yn derbyn adborth manwl ac adeiladol am bob un modiwl yn seiliedig ar y meini prawf asesu. Rydyn ni'n ymdrechu i roi'r adborth hwn i chi o fewn pum wythnos o'r dyddiad cyflwyno. Byddwn yn ysgrifennu sylwadau ar templed yr aseiniad yn egluro'r hyn yr ydych wedi'i wneud yn dda a'r hyn y gellir gwella arno. Os na fyddwch yn pasio aseiniad, gwnawn ein gorau i egluro'r hyn sydd angen ei wneud i lwyddo pan fyddwch yn ail-gyflwyno'r gwaith. Rydyn ni'n eich annog i ddefnyddio unrhyw adborth a gewch ar eich gwaith fel rhan o'r broses o ddatblygu'ch sgiliau academaidd. Sylwer, na ellir marcio'ch aseiniadau yn ddienw oherwydd natur asesiadau crynodol.

Os na fydd y gwaith a gyflwynwch yn pasio'r tro cyntaf, cewch ei ail-gyflwyno unwaith yn rhagor. Bydd eich Ymgynghorydd Academaidd neu Weinyddwr Cwrs IPC mewn ymgynghoriad â chi yn gosod dedlein newydd i chi ail-gyflwyno'ch aseiniad. Os llwyddwch i basio yn yr ail-gyflwyno, y gradd uchaf y gallwch ei gael ar gyfer y modiwl ydy Pas o 50%. Bydd methu ag ail-gyflwyno'r gwaith neu fethu â phasio'r asesiad ar ôl ei ail-asesu yn golygu nad ydych yn pasio'r modiwl. Os cewch lai na 30% am fodiwl ar yr ymgais gyntaf h.y. Methu, gellir gofyn i chi yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Arholiadau ail-fynychu'r modiwl. Ceir polisi'r Brifysgol ar Ailsefyll ac Ailgymryd ar: https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/resits-and-retakes/.

Caiff sampl o'r holl asesiadau eu safoni gan safonwr mewnol i sicrhau bod safonau cyfartal wedi eu gosod ar yr holl fyfyrwyr. Yn dilyn safoni mewnol, caiff sampl o'r gwaith ei safoni gan ein Arholwr Allanol i sicrhau fod y safonau osodwyd yn cael eu cymharu â'r rhai a osodir gan sefydliadau eraill.

Ar ôl cwblhau'r marcio, cewch eich hysbysu o'r darpar radd ar gyfer pob modiwl ar yr amod bod hyn yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Arholiadau. Felly gallai'r canlyniadau cychwynnol gael eu newid.

### 4.4. Amgylchiadau Eithriadol

Sicrhewch eich bod yn cyflwyno'ch aseiniad erbyn y dyddiad cau a bennwyd fan bellaf. Mae dyddiadau cyflwyno aseiniadau yn ddedleins penodol, ond gall myfyrwyr, fel eithriad, sicrhau estyniad os bydd amgylchiadau anffodus munud olaf yn effeithio ar eich gallu i gyflwyno ar amser. Os ydych chi'n wynebu amgylchiadau eithriadol sy'n effeithio ar eich gallu i astudio neu gyflawni'r aseiniad, gallwch wneud cais am estyniad. Am estyniad o fwy na thri diwrnod calendr bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'r amgylchiadau eithriadol. Ceir rhagor o fanylion yma: https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/exceptional-circumstances/.

Os na fyddwch yn cyflwyno'ch aseiniad, neu'n ei gyflwyno'n hwyr, heb wneud cais am estyniad, byddwch yn methu'r asesiad.

### 4.5. Cyfrinachedd

Mae gofyn i IPC riportio ar bresenoldeb myfyrwyr ar y rhaglen, eu cynnydd wrth gyflwyno asesiadau a'r canlyniadau i'r asiantaeth sy'n eu cyflogi a Gofal

Cymdeithasol Cymru. Fodd bynnag, dim ond staff Prifysgol Oxford Brookes a'n Harholwr Allanol fydd yn cael gweld cynnwys gwaith asesedig ac ni fydd ar gael i eraill i'w ddarllen tu allan i'r gymuned hon heb eich caniatâd. Bydd IPC yn annog myfyrwyr i rannu, drwy Gofal Cymdeithasol Cymru, grynodeb o brosiectau arloesol ac effeithiol yn y gweithle.

### 4.6. Polisi Iaith

Bydd IPC yn sicrhau bod gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru o ran y Gymraeg yn cael eu cyflawni wrth gyflenwi'r rhaglen hon. Rhoddir yr holl gyfarwyddiadau asesu ysgrifenedig a deunydd ymuno i chi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydyn yn eich cymell i gwblhau'ch asesiadau yn Gymraeg a chaiff asesiad ysgrifenedig ei farcio yn Gymraeg ac ni chaiff ei gyfieithu. Bydd cymorth academaidd unigol a hyfforddiant ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## 5. Modiwl WFPC7001 Cyflwyniad i Reoli Ansawdd Ymarfer

Mae'r modiwl hwn yn darparu gwybodaeth i fyfyrwyr am yr agenda cenedlaethol a gyrwyr allweddol Ansawdd Ymarfer o fewn meysydd gofal cymdeithasol, ac yn cynnig dulliau effeithiol i wynebu'r heriau hyn. Mae'n darparu cefndir damcaniaethol a pholisi, arfau a thechnegau i reoli agweddau o Ansawdd Ymarfer. Defnyddir amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu yn y modiwl hwn, cewch gyfle i:

- Gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau) i rannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Gwerthuso'r asesiad 360 gradd a llunio'ch cynllun datblygu personol eich hun – asesiad ffurfiannol ond gorfodol.
- Cyfrannu at setiau dysgu gweithredol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o agweddau o ymarfer myfyriol.
- Asesu gwaith dychmygol neu waith myfyrwyr y flwyddyn flaenorol yn erbyn y cynllun asesu ar gyfer yr asesiad crynodol.
- Ysgrifennu aseiniad yn ymwneud â chynnwys y modiwl.

### 5.1. Canlyniad Dysgu Modiwl

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus byddwch yn dangos y Priodweddau Graddedigion Brookes canlynol ar lefel ôl-radd:

| Canlyniad Dysgu | Priodwedd Graddedigion |
|---|---|
| 1. Gwybodaeth fanwl o'r agenda cenedlaethol sy'n dylanwadu ar Ansawdd Ymarfer ym maes gofal | Llythrennedd Academaidd |

| Canlyniad Dysgu | Priodwedd Graddedigion |
|---|---|
| cymdeithasol a dealltwriaeth gritigol o'r goblygiadau i'ch tîm a/neu i'ch sefydliad | |
| 2. Arddangos dealltwriaeth gritigol o egwyddorion a theorïau rheoli Ansawdd Ymarfer ym maes gofal cymdeithasol | Llythrennedd Academaidd |
| 3. Dadansoddi trefniadau Ansawdd Ymarfer eich tîm a/neu'ch sefydliad a gwneud hynny yn gritigol. | Llythrennedd Academaidd |
| 4. Nodi a gwerthuso cynigion gwella ymarferol ym maes eich astudiaeth a gwneud hynny'n gritigol | Llythrennedd Ymchwil |
| 5. Dadansoddi a gwerthuso cymhwysedd personol a dylunio a rheoli strategaeth eich datblygiad personol eich hun | Hunanymwybyddiaeth gritigol a llythrennedd personol |

## 5.2. Cynnwys y Modiwl

Bydd cynnwys y modiwl yn delio â'r canlynol:

**Cyflwyniad i Ansawdd Ymarfer:** diffiniadau o ansawdd, fframweithiau ansawdd ac adolygiadau o'r adeg bydd ansawdd yn methu. Hunanasesiad o ddull cyfredol eich tîm neu wasanaeth ar reoli ac arwain ym maes Ansawdd Ymarfer.

**Rheoli Ansawdd Ymarfer yn ei Gyd-destun:** yr agenda cenedlaethol, ac effaith newid o fewn diogelu, personoli, integreiddio trefniadau'r gwasanaeth a dechrau defnyddio dulliau'n seiliedig ar ganlyniadau.

**Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr yn Ganolog i Wella Ansawdd:** canfod agweddau o gyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a sut gellir cynnwys a gweithredu hyn i feysydd datblygu tîm. Egwyddorion cenedlaethol ymgysylltu â'r cyhoedd a safonau cyfranogi ar gyfer Cymru. Archwilio'r fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau yn Gymraeg a'r cysyniad o gyd-gynhyrchu.

**Rheoli'r Galw a'r Gallu:** goblygiadau polisïau allweddol ar gyfer rheoli'r galw a'r gallu o fewn gofal cymdeithasol a dulliau strategol o reoli'r galw a'r gallu. Canfod a gweithredu arfau yn cynnwys: rheoli pyrth gwasanaeth a gweinyddol drwy feini prawf cymhwyster a blaenoriaeth a'r defnydd o 'triage', polisïau codi tâl, mapio proses a nodi'r cyfyngiadau a'r tagfeydd. Canfod a gweithredu arfau rheoli llwyth achosion a llwyth gwaith a dulliau o ddarparu darlun o weithgaredd yr holl dîm sy'n caniatáu canfod y tueddiadau mewn ymrwymiad adnoddau, addasu'r gweithgaredd a meysydd i wella.

## 5.3. Amcan o'r Oriau Dysgu

Gallwch ddisgwyl treulio'r amser canlynol ar y modiwl hwn:

- Sesiynau a addysgir - 14 awr
- Cyfarfodydd cymorth unigol - 10 awr
- Astudiaeth annibynnol gyfeiriedig - 66 o oriau
- Paratoi ar gyfer aseiniad crynodol ac ymgymryd ag e – 110 o oriau

Fel y gwelwch yn yr oriau dysgu tybiannol uchod, disgwylir i fyfyrwyr gwblhau dysgu ac ymchwil ychwanegol ac annibynnol i lywio eu dysgu, cyfraniadau at ddiwrnodau hyfforddi a'r aseiniad. Cyfrifoldeb pob myfyriwr ydy sicrhau eu bod yn cwblhau'r gwaith a'r ymchwil a ddisgwylir rhwng pob diwrnod hyfforddi a'r sesiynau cymorth.

## 5.4. Tasg Asesu Modiwl

Tasg asesu'r modiwl crynodol ydy llunio aseiniad ysgrifenedig:

Cyflwyno aseiniad ysgrifenedig rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau sydd, yng nghyd-destun dylanwadau allweddol cenedlaethol a lleol, yn darparu dadansoddiad o'ch blaenoriaethau datblygu arweinyddiaeth sy'n berthnasol i'ch sefydliad ac / neu i bartneriaethau ehangach. Bydd disgwyl i chi gyfeirio at ddogfennau lleol a chenedlaethol allweddol a llenyddiaeth arall berthnasol i ddangos eich darllen a'ch dealltwriaeth o egwyddorion a theori rheoli ansawdd a'r canllawiau cenedlaethol.

Mae hyd eich aseiniad wedi'i gyfyngu i nifer penodol o eiriau er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu ac i sicrhau bod gwaith pawb yn cael ei asesu'n deg. Felly rydyn ni'n gofyn i chwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer o eiriau a nodir ym mriff yr aseiniad: rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau. Does dim gwyro ac ni cheir mynd tu hwnt i'r uchafswm geiriau. Os ydych mewn unrhyw amheuaeth, dylech drafod hyn gyda'ch Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'ch gwaith. Dylech nodi'ch cyfrif geiriau yn glir ar dempled eich aseiniad.

Mae'r cyfrif geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy e ddim yn cynnwys teitl yr seiniad, rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r cyfrif geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodiadau, tablau a dyfyniadau yn y testun ond nid y diagramau. Ni chaiff yr atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, bydd unrhyw gam-ddefnydd o atodiadau yn cael ei ystyried wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Mae templed yr aseiniad, sy'n rhoi cyfarwyddyd am feini prawf ar gyfer asesu, ar gael i'w lawrlwytho o Rith-Amgylchedd Ddysgu'r Brifysgol (Moodle). Mae gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig, ar dempled yr aseiniad, drwy Rith Amgylchedd Dysgu'r Brifysgol (Moodle). Rydym hefyd yn disgwyl i chi hefyd gyflwyno testun yr aseiniad i Turnitin ac i gofnodi eich sgôr gwreiddioldeb Turnitin ar dempled yr aseiniad. Byddwch yn derbyn adborth am dempled eich aseiniad a fydd yn dangos pa mor dda rydych wedi gwneud a bydd yn crynhoi cryfderau a gwendidau eich gwaith. Adnodd ar y we ydy Turnitin sy'n cynorthwyo datblygiad o arfer academaidd da wrth baratoi gwaith ysgrifenedig i'w asesu. Mae'r adnodd matsio testun hwn yn galluogi staff i wirio nad yw aseiniadau wedi cam-ddefnyddio ffynonellau hwn neu i

ddatgelu llên ladrad posibl drwy gymharu’r gwaith â basau data sy’n cael eu diweddaru’n gyson (yn cynnwys tudalennau gwefannau a gwaith myfyrwyr eraill).

Byddwch yn derbyn adborth am dempled eich aseiniad a fydd yn dangos pa mor dda rydych wedi gwneud a bydd yn crynhoi cryfderau a gwendidau eich gwaith.

### 5.5. Defnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI)

Mae eich cyfrifoldeb i wneud eich gwaith eich hun a chydnabod eraill am eu gwaith yn berthnasol i beth bynnag a ddefnyddir wrth gynhyrchu aseiniadau, gan gynnwys ffynonellau neu offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) e.e. 'ChatGPT'.

O fis Ionawr 2023, os byddwch yn defnyddio unrhyw offer deallusrwydd artiffisial ar gyfer eich asesiad, mae angen i chi nodi eich defnydd ar ffurflen datganiad yn Moodle pan fyddwch yn cyflwyno'ch gwaith. Mae hyn yn debyg i gyfeirio at eich ffynonellau yn eich llyfryddiaeth. Yn y datganiad, mae angen i chi nodi pa offer rydych chi wedi'u defnyddio a sut rydych chi wedi'u defnyddio yn eich aseiniad (er enghraifft, beth wnaethoch chi ofyn i'r rhaglen ei wneud). Dylech hefyd wirio arweiniad eich modiwl neu gyda'ch Arweinydd Modiwl i weld a ellir defnyddio offer AI ar gyfer eich asesiad(au) oherwydd efallai y bydd rhai asesiadau lle na ellir defnyddio offer AI. Ni chaniateir defnyddio offer deallusrwydd artiffisial heb ei ddatgan, a gallai arwain at ymchwiliad ymddygiad academaidd.

### 5.6. Hanes Dilysu’r Modiwl

Cymeradwywyd y modiwl hwn gyntaf ym 2010

## 6. Modiwl W WFPC7002 Cadarnhau Perfformiad ac Ansawdd

Mae'r modiwl hwn yn rhoi i'r myfyrwyr seiliau cadarn o wybodaeth a sylfaen ar y defnydd o gadarnhau tystiolaeth mewn ymarfer. Bydd sgiliau mewn gwerthuso critigol a defnyddio'r dystiolaeth i ddatrys heriau cynhenid i ymarfer gofal cymdeithasol yn sail i'r modiwl hwn. Defnyddir amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu yn y modiwl hwn, cewch gyfle i wneud y canlynol:

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau ac astudiaethau achos) i rannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Cyfrannu at setiau dysgu gweithredol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o agweddau o ymarfer myfyriol.
- Gwerthuso'r hunanasesiad o anghenion dysgu a ddynodwyd ym modiwl WFPC7011 a beirniadu eich datblygiad proffesiynol.
- Asesu gwaith dychmygol neu waith myfyrwyr y flwyddyn flaenorol yn erbyn y cynllun asesu ar gyfer yr asesiad crynodol.
- Cyflwyno prosiect seiliedig ar y gweithle i weithredu rheolaeth dda o Ansawdd Ymarfer.

- Cyflwyno amlinelliad prosiect a chynllun prosiect, ffurfiannol ond gorfodol, ar gyfer eich darpar brosiect y byddwch yn ei ddefnyddio yn eich asesiad crynodol.

## 6.1. Canlyniad Dysgu Modiwl

Ar ôl cwblhau’r modiwl hwn yn llwyddiannus byddwch yn dangos y Priodweddau Graddedigion Brookes canlynol ar lefel ôl-radd:

| Canlyniadau Dysgu | Priodwedd Graddedigion |
|---|---|
| 1. Arddangos dealltwriaeth gritigol o amrediad o dechnegau i gynnwys ymarfer seiliedig ar dystiolaeth | Llythrennedd Academaidd |
| 2. Gwerthuso'n gritigol ymarfer cyfredol mewn perthynas â'ch prosiect Ansawdd Ymarfer yn y gweithle | Llythrennedd Ymchwil |
| 3. Cadarnhau mewnbwn defnyddwyr gwasanaethau i sgôp, cynllun a datblygiad prosiect Ansawdd Ymarfer | Dinasyddiaeth Weithredol |
| 4. Defnyddio dysg seiliedig ar dystiolaeth i gyflwyno arfer dda | Llythrennedd Ymchwil |
| 5. Ystyried yn gritigol datblygiad a dysg chi eich hunan a'ch sefydliad | Hunanymwybyddiaeth gritigol a llythrennedd personol |

## 6.2. Cynnwys y Modiwl

Bydd cynnwys y modiwl hwn yn delio â’r canlynol:

**Hyrwyddo a Chynnwys Ymarfer ar sail Tystiolaeth:** y rhwystrau posibl rhag cael mynediad i’r sail dystiolaeth berthnasol, ei chymhathu a’i chymhwyso ynghyd â strategaethau ymarferol i oresgyn y rhwystrau hyn, gan gynnwys ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, rhannu gwybodaeth o’r ymchwil diweddaraf, caffael a defnyddio sgiliau beirniadol; amgylchedd dysgu; a chyfranogiad defnyddwyr y gwasanaeth. Canfod a defnyddio arfau i gynnwys ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys defnyddio llwybrau.

**Rheoli Perfformiad:** cyflwyniad i reoli perfformiad a chysyniad o allbwn a deilliant. Cyflwyniad i ddull seiliedig ar safonau i werthuso perfformiad a'r rhwystrau i'w weithredu, gan gynnwys: anghywirdeb data, gofynion riportio prydlon, methiant i wneud defnydd o'r data i wella gwasanaethau, a chanfyddiad o ddiffyg symbyliad i daclo dynodi arferion gwael a defnyddio arfau i ddeall a gwella ansawdd gwasanaeth.

**Dilysu Perfformiad – Rôl Archwilio ac Adolygu Gwasanaeth:** deall elfennau'r gyfundrefn rheoleiddio ac archwilio a sut i baratoi'n effeithiol ar gyfer arolwg. Rydyn ni hefyd yn ystyried meincnodi fel arf i newid safbwynt ymarferwyr, herio arferion a phrosesau cyfredol a chreu targedau i wella'r gwasanaeth.

## 6.3. Amcan o'r Oriau Dysgu

Gallwch ddisgwyl treulio'r amser canlynol ar y modiwl hwn:

- Sesiynau a addysgir - 14 awr
- Cyfarfodydd cymorth grŵp bach neu unigolion - 10 awr
- Astudiaeth annibynnol dan gyfarwyddyd - 36 awr
- Paratoi ar gyfer a chyflawni aseiniad crynodol - 140 awr

## 6.4. Tasg Asesu'r Modiwl

Y dasg grynodol ydy:

Cyflwyno aseiniad ysgrifenedig rhwng 3,000b a 4,000 o eiriau sy'n egluro ac yn ystyried prosiect Ansawdd Ymarfer yn y gweithle yr ydych chi wedi ei gyflawni. Rhaid egluro'r rhesymeg dros y gwaith yn glir yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol a/neu arfer gorau, gan gynnwys mewnbwn defnyddwyr y gwasanaeth i sgôp, cynllun a datblygiad y prosiect. Rhaid i'r prosiect fod wedi ei dderbyn gan eich rheolwr llinell fel un addas i anghenion eich tîm neu sefydliad, a'i fod wedi'i gynnal yn ystod cyfnod amser y rhaglen. Disgwylir gwybodaeth gefnogol sy'n rhoi tystiolaeth o weithgareddau'r prosiect ac o gyflwyno arferion da, gan gynnwys datganiad arsylwi gan eich rheolwr llinell. Disgwylir gweld cyfeiriadaeth at ddogfennau allweddol lleol a chenedlaethol a deunyddiau perthnasol eraill i ddangos eich bod wedi darllen ac ymchwilio'n ehangach.

Mae hyd eich aseiniad wedi'i gyfyngu i nifer penodol o eiriau er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu ac i sicrhau bod gwaith pawb yn cael ei asesu'n deg. Felly rydyn ni'n gofyn i chwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer o eiriau a nodir ym mriff yr aseiniad: rhwng 3.000 a 4,000 o eiriau. Does dim gwyro ac ni cheir mynd tu hwnt i'r uchafswm geiriau. Os ydych mewn unrhyw amheuaeth, dylech drafod hyn gyda'ch Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'ch gwaith. Dylech nodi'ch cyfrif geiriau yn glir ar dempled eich aseiniad.

Mae'r cyfrif geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy e ddim yn cynnwys teitl yr seiniad, rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r cyfrif geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodiadau, tablau a dyfyniadau yn y testun ond nid y diagramau. Ni chaiff yr atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, bydd unrhyw gam-ddefnydd o atodiadau yn cael ei ystyried wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Mae templed aseiniad ar gael i chi sy'n rhoi cyfarwyddyd ar feini prawf yr asesiad a gallwch ei lawrlwytho o Rith-Amgylchedd Dysgu'r Brifysgol (Moodle).. Rydym yn gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig ar y templed aseiniad, drwy Rith Amgylchedd Dysgu y Brifysgol (Moodle). Cewch adborth ar dempled eich aseiniad a

fydd yn nodi pa mor dda yr ydych wedi gwneud a chrynhoi cryfderau a gwendidau’ch gwaith.

### 6.5. Hanes Dilysu’r Modiwl

Cymeradwywyd y modiwl hwn ym 2010.

## 7. Modiwl WFPC7003 Arwain a Rheoli ar gyfer Ansawdd

Mae'r modiwl hwn yn ystyried nodweddion rheolaeth o fewn timau, perthynas a swyddogaethau, a sgiliau i'w gweithredu. Mae'n archwilio egwyddorion newid ac ymateb unigolion a thimau ac mae'n darparu arfau buddiol. Defnyddir amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu yn y modiwl hwn, cewch gyfle i:

- Gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau ac achosion achos) i rannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Asesu gwaith dychmygol neu waith myfyrwyr y flwyddyn flaenorol yn erbyn y cynllun asesu ar gyfer yr asesiad crynodol.
- Cyflwyno astudiaeth achos yn y gweithle a fydd yn ystyried materion yn ymwneud â phynciau’r modiwl.
- Ysgrifennu aseiniad yn ymwneud â’r astudiaeth achos.

### 7.1. Canlyniadau Dysgu’r Modiwl

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn arddangos y priodweddau canlynol ar lefel ôl-radd:

| Canlyniadau Dysgu | Priodweddau Graddedigion |
|---|---|
| 1. Gwerthuso'n gritigol manteision y gwahanol arddulliau o reoli ac arwain | Llythrennedd Academaidd |
| 2. Arddangos dealltwriaeth gritigol o’r modd i reoli newid o fewn sefydliadau a thimoedd | Llythrennedd Academaidd |
| 3. Y gallu i reoli timoedd ac unigolion sy’n cyflenwi canlyniadau da ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol o ran safbwyntiau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol lleol a chenedlaethol | Dinasyddiaeth Weithredol |

| Canlyniadau Dysgu | Priodweddau Graddedigion |
|---|---|
| 4. Cyflwyno dadleuon wedi’u strwythuro a chyfleu gwaith a chanfyddiadau i eraill | Llythrennedd digidol a gwybodaeth |
| 5. Ystyried eich datblygiad a’ch dysgu eich hun a datblygiad a dysg eich sefydliad | Hunanymwybyddiaeth gritigol a llythrennedd personol |

## 7.2. Cynnwys y Modiwl

Bydd cynnwys y modiwl yn delio â’r canlynol:

**Arweinyddiaeth Tîm Gofal Cymdeithasol:** Rôl timoedd gwaith cymdeithasol a’r ffactorau statudol, rheoledig a’r economaidd-gymdeithasol sy’n dylanwadu ar sut maen nhw’n gweithredu. Cryfderau a gwendidau dulliau o ddelio â rheoli pobl a thimoedd ac elfennau allweddol rheoli effeithiol. Ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau rheoli a’u haddasrwydd mewn gwahanol sefyllfaoedd.

**Gwella a Rheoli Perfformiad Timau ac Unigolion:** rôl goruchwylio effeithiol fel ymyriad ar gyfer newid mewn Ansawdd Ymarfer a gwella perfformiad yn ogystal â bod yn ffactor allweddol i gadw staff medrus – goruchwylio a gwerthuso unigolion, goruchwylio grŵp a thechnegau datblygu tîm. Dulliau o ddelio â rheoli perfformiad gwael yn effeithiol.

**Arwain a Chynorthwyo Datblygiad a Newid:** theori ac egwyddorion newid sy’n berthnasol i sefydliadau gofal cymdeithasol. Ffactorau sy’n cynorthwyo arweiniad a'r rhwystrau rhag newid sy’n codi mewn timoedd a meddylfryd proffesiynol. Mae rheoli newid drwy atebion ac adolygu newid yn y gwasanaeth drwy gynnwys sefydliadau a thîm defnyddwyr y gwasanaeth.

## 7.3. Amcan o’r Oriau Dysgu

Gallwch ddisgwyl treulio’r amser canlynol ar y modiwl hwn:

- Sesiynau a addysgir - 14 awr
- Cyfarfodydd cymorth grŵp bach neu unigolion - 10 awr
- Paratoi Unigol – 8
- Astudiaeth annibynnol dan gyfarwyddyd - 68 awr
- Paratoi ar gyfer a chyflawni aseiniad crynodol - 100 awr

## 7.4. Asesu’r Modiwl

Tasg asesu grynodol y modiwl fydd cyflwyno astudiaeth achos sy'n arddangos eich sgiliau rheoli a/neu arweinyddiaeth chi. Caiff y cyflwyniad ei gefnogi gan ddisgrifiad ysgrifenedig o'r astudiaeth achos ac ystyriaeth o'r broses, gyda gwerthusiad critigol

o'r canlyniadau ar gyfer ymarfer. Dylai'r astudiaeth achos gyfeirio at y gweithgaredd ddigwyddodd o fewn ffrâm amser y rhaglen.

Mae hyd eich aseiniad wedi'i gyfyngu i nifer penodol o eiriau er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu ac i sicrhau bod gwaith pawb yn cael ei asesu'n deg. Felly rydyn ni'n gofyn i chwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer o eiriau a nodir ym mriff yr aseiniad: rhwng 2.000 a 3,000 o eiriau. Does dim gwyro ac ni cheir mynd tu hwnt i'r uchafswm geiriau. Os ydych mewn unrhyw amheuaeth, dylech drafod hyn gyda'ch Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'ch gwaith. Dylech nodi'ch cyfrif geiriau yn glir ar dempled eich aseiniad.

Mae'r cyfrif geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy e ddim yn cynnwys teitl yr seiniad, rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r cyfrif geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodiadau, tablau a dyfyniadau yn y testun ond nid y diagramau. Ni chaiff yr atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, bydd unrhyw gam-ddefnydd o atodiadau yn cael ei ystyried wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Bydd disgwyl i chi gyflwyno amlinelliad o'r prosiect a chynllun y prosiect i Rith Amgylchedd Ddysgu'r Brifysgol (Moodle) cyn dyddiad cyflwyno'r asesiad crynodol.

Mae templed yr aseiniad, sy'n rhoi cyfarwyddyd am feini prawf ar gyfer asesu, ar gael i'w lawrlwytho o Rith-Amgylchedd Ddysgu'r Brifysgol (Moodle). Rydym yn gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig ar y templed aseiniad, drwy Rith Amgylchedd Dysgu y Brifysgol (Moodle). Cewch adborth ar dempled eich aseiniad a fydd yn nodi pa mor dda yr ydych wedi gwneud a chrynhoi cryfderau a gwendidau'ch gwaith.

### 7.5. Hanes y Dilysu

Cymeradwywyd y modiwl hwn gyntaf ym 2010.

## 8. Rheoli ac adolygu rhaglen

Mae gwerthusiad manwl o brofiad dysgwyr yn elfen bwysig a pharhaus o'r rhaglen. Felly, caiff y rhaglen ei monitro'n gyson er mwyn cofnodi'ch barn. Defnyddir ffurflen werthuso anffurfiol i drafod cynnwys y modiwl, y deunyddiau, yr ymarferion, gweinyddiad y modiwl, y lleoliad ac unrhyw fater arall. Mae gwerthuso'r modiwl yn gyfle i chi roi sylwadau ar agweddau positif a negyddol y modiwl, perfformiad y staff addysgu a chynllun y modiwl. Mae gwerthuso yn ein helpu i wirio'r addysgu a'r profiad dysgu ac i wella ansawdd y rhaglen. Trafodir canlyniadau'r gwerthusiadau fel rhan o'r Pwyllgor Pwnc, gyda Chynrychiolwyr y Myfyrwyr yn bresennol.

Tîm rheoli'r rhaglen fydd yn gyfrifol am reoli'r rhaglen a'r tîm hwnnw'n cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Cwrs yr IPC. Bydd y tîm yn cynnal cyfarfodydd mewnol rheolaidd i drafod unrhyw newidiadau brys a rheolaeth y rhaglen a'r Pwyllgor Arholiadau sy'n gyfrifol am gynnal safonau academaidd y rhaglen. Rydyn ni'n derbyn adroddiad blynyddol gan ein Harholwr Allanol sy'n samplo gwaith myfyrwyr ac yn mynychu cyfarfodydd ein Pwyllgor Arholiadau. Cynhelir cyfarfod Adolygu Blynyddol a Chyfarwyddwr Cwrs IPC sy'n ei gadeirio a fydd yn dod â'r cyfarfodydd hyn a

deunyddiau gwerthuso eraill at ei gilydd. Anfonir cofnodion y cyfarfod hwn at Bwyllgor Safonau a Gwelliant Academaidd y Gyfadran. Yn ogystal â phroses Adolygiad Blynyddol y Gyfadran, bydd y rhaglen hefyd yn cael Adolygiad Cyfnodol gan y Brifysgol er mwyn asesu pa mor effeithiol ydy'r rhaglen wrth alluogi myfyrwyr i gyflawni'r dysgu a fwriadwyd.

Bydd Cyfarwyddwr Cwrs yr IPC yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli Rhaglenni Cenedlaethol (NPMC) yn gyson. Mae aelodaeth NPMC yn cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC), Penaethiaid Gwasanaethau, Rheolwyr Datblygu Gweithlu o fewn awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Os bydd gennych unrhyw bryderon neu achwynion am y rhaglen, rydym yn eich annog i drafod y mater yn y lle cyntaf gydag Arweinydd y Modiwl neu'ch Ymgynghorydd Academaidd. Os na fydd hyn yn briodol, trafodwch y broblem gyda Chyfarwyddwr Cwrs yr IPC a fydd yn ymchwilio i'ch pryder. Gallech hefyd wneud cwyn ffurfiol myfyriwr i'r Brifysgol – gweler adran 10.10.

## 8.1. Cynrychiolaeth y myfyrwyr

Mae'r IPC yn annog myfyrwyr i gymryd rhan yn eu rhaglen drwy system o Gynrychiolaeth Myfyrwyr. Mae Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn cael eu hethol drwy amrywiaeth o ddulliau ac maen nhw'n cael y cyfle i gyfrannu at sesiynau datblygu cwrs a gwerthusiadau gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd eich Arweinydd Modiwl yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

# 9. Cymorth i Fyfyrwyr

## 9.1. Tiwtoriaid a gweinyddwyr IPC

### 9.1.1. Cyfarwyddwr Cwrs yr IPC

Mae rheoli rhaglen cwrs IPC drwyddi draw, yn cynnwys mynegi pryderon a chwynion, yn gyfrifoldeb Cyfarwyddwr Cwrs yr IPC – gellir cysylltu â Fiona Richardson ar 01865 790312 a thrwy e-bost ar: frichardson@brookes.ac.uk.

### 9.1.2. Gweinyddydd Cwrs yr IPC

Delir â gweinyddiad holl gyrsiau IPC gan y Gweinyddydd Cwrs - gellir cysylltu â Sasha Carter a Lynn Bennet ar 01865 488353 a thrwy e-bost ar: ipc_courses@brookes.ac.uk.

### 9.1.3. Arweinydd Modiwl

Bydd gan bob modiwl Arweinydd a fydd yn gyfrifol am gyflenwi'r sesiynau a addysgir a'r Arweinydd modiwl ddylai fod eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwestiynau am y cynnwys a addysgir.

#### 9.1.4. Ymgynghorydd Academaidd

Neilltuir Ymgynghorydd Academaidd ar eich cyfer a chewch un tiwtorial gydag e/hi ymhob modiwl er y gallwch ofyn am gymorth ychwanegol os oes angen. Rôl yr Ymgynghorydd Academaidd ydy'ch cynghori am safon y gwaith academaidd a ddisgwylir ac i fod ar gael os byddwch angen cymorth, er enghraifft os bydd unrhyw anawsterau'n codi sy'n effeithio ar eich gallu i astudio neu i wneud gwaith ar gyfer asesiad.

## 9.2. Strwythurau Cymorth y Brifysgol

Mae rhwydwaith cymorth helaeth i fyfyrwyr yn Brookes: https://www.brookes.ac.uk/students/support/. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau anabledd, cymorth iechyd meddwl a llesiant yn ogystal â chymunedau myfyrwyr, cyngor i fyfyrwyr a chymorth gyda sgiliau astudio. Rydyn ni'n eich annog i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael yn y Brifysgol os ydych chi'n gwneud y dyfarniad achrededig. Gall y Tîm Cyngor Canolog i Fyfyrwyr (Student Central Advice Team) roi gwybodaeth a chyngor i chi tra byddwch yn astudio yn Brookes ac mae Gwasanaeth Cynghori Undeb Myfyrwyr Brookes (Brookes Student Union Advice Service) yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol am ddim sy'n annibynnol ar y Brifysgol.

#### 9.2.1. Canolfan Datblygiad Academaidd

Y Ganolfan Datblygiad Academaidd (Centre for Academic Development) ydy gwasanaeth cyfrinachol y Brifysgol sy'n cynnig cyngor ar faes astudio. Mae'r Ganolfan yn cynnig tiwtorialau, dosbarthiadau ac adnoddau ar-lein i'ch helpu gyda sut i astudio'n effeithiol. Mae ganddyn nhw lawer o wahanol adnoddau a thîm o staff ymroddedig i'ch helpu chi i, sy'n cwmpasu unrhyw beth o sgiliau ysgrifennu i sgiliau cyflwyno, Mathemateg, yn ogystal â sgiliau Iaith Saesneg. Mae'n werth pori drwy dudalen gartref y Ganolfan Datblygu Academaidd i gael syniad o'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig.

#### 9.2.2. Gwasanaeth Cefnogaeth Gynhwysol

Os oes gennych anabledd, cyflwr meddygol neu anhawster dysgu penodol a allai effeithio ar eich astudiaethau, mae cymorth ar gael i'ch helpu chi. Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Gynhwysol yn darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr Prifysgol Oxford Brookes. Byddan nhw'n gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun cymorth unigol i gwrdd â'ch anghenion a hefyd yn eich cynghori am sut gall systemau'r Brifysgol gynorthwyo myfyrwyr ag anableddau. , dyslecsia neu anawsterau dysgu eraill. Er enghraifft, mae estyniad ISP o dair wythnos yn berthnasol i'r dasg asesu ar y rhaglen hon. Cysylltwch â https://www.brookes.ac.uk/students/inclusive-support-service/ neu e-bostiwch at: inclusionsupport@brookes.ac.uk.

#### 9.2.3. Cyn-Fyfyrwyr

Fel un o raddedigion Prifysgol Oxford Brookes, byddwch wedi ymuno â chymuned o dros 110,000 o gyn-fyfyrwyr Brookes sy'n byw a gweithio ymhob cwr o'r byd. Ble bynnag maen nhw, maen nhw'n cyfrannu, cyflawni ac yn rhagori yn eu dewis

feysydd. Mae’n amser cyffrous i gyn-fyfyrwyr Brookes: mae’r cynnig i gyn-fyfyrwyr yn un amrywiol ac mae’r nifer yn cynyddu. Mae mwy o ddigwyddiadau cyn-fyfyrwyr yn cael eu cynnal nag erioed o’r blaen ac mae manteision a gwasanaethau newydd yn cael eu cyflwyno’n barhaus. Ar wefan y cyn-fyfyrwyr ceir newyddion, digwyddiadau ac erthyglau rhyngweithiol. Mae’n fan cychwyn i gysylltu â chymuned y cyn-fyfyrwyr a dyma man lle gallwch ymrestru ar gyfer eich Cerdyn Aelodaeth sy’n rhoi mynediad i chi i lawer o’r buddion a’r gwasanaethau. Am ragor o fanylion, ewch i: www.brookes.ac.uk/alumni.

Gallwch hefyd edrych ymlaen at dderbyn Observe, cylchgrawn y Brifysgol, a anfonir at gyn-fyfyrwyr yn flynyddol. Mae’n llawn o hanes cyn-fyfyrwyr a’r brifysgol a newyddion a fydd yn eich cadw chi mewn cysylltiad â’ch prifysgol. Os byddwch yn newid cyfeiriad, gadewch i ni wybod fel y gallwn ddiweddaru’n cofnodion. Os bydd gennych gwestiynau, croeso i chi gysylltu â ni ar 01865 484878; e-bost alumni@brookes.ac.uk neu fynd i: www.brookes.ac.uk/alumni.

## 9.3. Adnoddau Dysgu

### 9.3.1. Rhith-Amgylchedd Dysgu Brookes (Moodle)

Ym Mhrifysgol Oxford Brookes, rydyn ni’n defnyddio Rhith-Amgylchedd Dysgu (VLE), yn cael ei yrru gan Moodle, sy'n caniatáu i chi fod yn rhan o'r dysgu yn y mannau, ar yr adegau a'r cyflymder sy'n addas i chi. Cynlluniwyd Moodle fel atodiad i'ch seminarau wyneb yn wyneb – dyma'r cyfrwng sy'n caniatáu i chi wneud y canlynol.

- Cael mynediad i ddeunyddiau dysgu'r cwrs
- Canfod help – y man i lawrlwytho cyfarwyddiadau, er enghraifft sut i ddefnyddio'r llyfrgell electronig
- Defnyddio fforymau trafod
- Cyflwyno'ch gwaith i'w asesu, gan gynnwys cynlluniau prosiect ac aseiniadau
- Derbyn adborth ar eich aseiniadau

Mae cyfres o fideos a dogfennau i'ch helpu i ddefnyddio 'Brookes Virtual' yma ar: Getting Started with Moodle.

Pan fyddwch yn ymrestru ar gyfer Prifysgol Oxford Brookes byddwch yn awtomatig yn derbyn cyfrif e-bost Brookes drwy G-mail. Mae hyn yn golygu bydd gennych gyfeiriad e-bost '@Brookes.ac.uk' a chael mynediad i gasgliad o Apps gan Google, megis Google Calendr a Google Meet. Gallwch gael help i ddefnyddio'r holl gasgliad ar: https://www.brookes.ac.uk/it/essentials/google-apps/.

Eich enw fel defnyddiwr fydd eich rhif fel myfyriwr Brookes ac fe anfonir cyfrinair atoch chi. Byddwch yn derbyn adborth ar eich waith drwy 'Brookes VLE (Moodle)' a chewch negeseuon awtomatig ar e-bost i'ch rhybuddio o'r rhain. Naill ai bydd angen i chi gadw llygaid ar eich cyfrif e-bost Brookes neu hanfon ymlaen i gyfeiriad e-bost arall rydych chi'n ei ddefnyddio. Byddwch yn derbyn cyfarwyddyd sut i agor a defnyddio'r 'VLE (Moodle)' wedi i chi ymrestru. I gael help, ewch ar: https://www.brookes.ac.uk/it/.

### 9.3.2. Llyfrgell

Cewch ddefnyddio'r holl gyfleusterau ar y safle yn ogystal â Llyfrgell Prifysgol Brookes ar-lein. Mae gan y llyfrgelloedd ar y safle ystod eang o gylchgronau a thestunau ar iechyd, lles a gofal cymdeithasol. Mae’r Llyfrgell hefyd yn darparu mynediad i adnoddau ar-lein gan gynnwys basau data a thestunau llawn electronig miloedd o gyfnodolion, y gallwch eu gweld gartref neu yn y gwaith ar dudalen hafan y Llyfrgell, www.brookes.ac.uk/services/library/.

Mae staff y Llyfrgell bob amser yn barod i’ch helpu gyda’ch ymholiadau am wybodaeth. Gellir cysylltu â'r Llyfrgellwyr Pwnc (Subject Librarians for Social Care) ar 01865 483135 neu e-bostio healthcarelibrarians@brookes.ac.uk. Mae help helaeth ar gael a chanllawiau a gwybodaeth ar sut i ganfod adnoddau Gofal Cymdeithasol ar wefan y Llyfrgell: http://www.brookes.ac.uk/library/subject-help/health-and-social-work/.

### 9.3.3. Enwch Nhw’n Gywir – 'Cite Them Right'

Gallwch weld y wybodaeth am gyfeirio a system gyfeirio Harvard yma: https://www.brookes.ac.uk/students/upgrade/study-skills/referencing/. Hefyd, fel myfyriwr ym Mhrifysgol Oxford Brookes cewch fynediad i wefan ‘Cite Them Right’ ar-lein: adnodd i'ch helpu i ddeall cyfeirio, gan gynnwys sampl o destun a rhestr gyfeirio yn arddull Harvard. Gallwch fewngofnodi ar wefan https://citethemrightonline.com/ drwy'r drefn mewngofnodi arferol sy'n defnyddio eich rhif myfyriwr a'ch cyfrinair. Mae adran Hanfodion (Basics) ‘Cite Them Right Online’ yn fan cychwyn da os ydych yn chwilio am gyngor am gyfeirnodi ac mae’r dyfyniad isod yn dod o’r adran honno:

> *Cyfeirnodi ydy‘r broses o gydnabod y ffynonellau a ddefnyddioch yn eich traethawd, eich aseiniad neu ddarn o waith. Mae’n caniatáu i’r darllenydd gael gweld y dogfennau gwreiddiol cyn gynted â phosibl er mwyn gwirio, os oes angen, ddilysrwydd eich dadleuon a’r dystiolaeth sy’n sail i’r dadleuon hynny. Rydych yn nodi’r ffynonellau hyn drwy eu henwi yn nhestun eich aseiniad (sef dyfyniadau...) a’u cyfeirnodi ar ddiwedd eich aseiniad (sef y rhestr gyfeirio...). Dim ond y ffynonellau a nodir yn eich testun sy’n cael eu cynnwys yn y rhestr gyfeirio. Nid llyfryddiaeth ydy rhestr gyfeirio er bod llyfryddiaeth yn defnyddio’r un dull o gyfeirnodi ond hefyd mae’n cynnwys yr holl ddeunydd, er enghraifft y darllen cefndirol yr ydych yn ei ddefnyddio wrth baratoi’ch gwaith.*
>
> *Rhaid i chi arbed manylion llawn yn systematig, er enghraifft, yr awdur, y dyddiad, y teitl [cyfeiriad gwefan] o unrhyw ddeunydd y byddwch yn ei ddefnyddio ar yr adeg yr ydych yn ei ddefnyddio. Ar wahân i fod yn ymarfer academaidd da, mae hyn yn sicrhau na fydd problem gennych i geisio dod o hyd i ffynonellau yr ydych wedi’u defnyddio wythnosau neu fisoedd ynghynt efallai.*
>
> *… Drwy gyfeirio at weithiau awdurdodau sefydledig ac arbenigwyr ym maes eich pwnc, gallwch atgyfnerthu eich sylwadau a dadleuon. Mae hyn yn helpu i*

*ddangos eich bod wedi darllen yn eang ac ystyried a dadansoddi gwaith pobl eraill. Cofiwch, gall cyfeirnodi da eich helpu i gyflawni gradd neu farc gwell. Yn fwy pwysig, mae cyfeirnodi da yn hanfodol er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad o lên-ladrad. (Cite Them Right Online - mae'r gwreiddiol mewn llythrennau italig a thrwm yn y gwreiddiol).*

"Cite Them Right Online What is referencing and why is it important?" - Ar gael ar http://www.citethemrightonline.com/Basics/what-is-referencing (dim dyddiad) (Cyrchwyd: 8 Mai 2014).

### 9.4. Siarter Brookes

Mae Prifysgol Oxford Brookes wedi ymrwymo i ddarparu profiad eithriadol i fyfyrwyr, i ddatblygu ymchwil pellach o safon byd-eang, gwneud cyfraniad positif i'n cymuned ehangach a chreu gwasanaethau sector-arweiniol o safon uchel ar gyfer y dyfodol. Mae ein Siarter Brookes yn nodi goblygiadau'r ymrwymiadau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth ar: http://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/brookes-charter.

## 10. Rheoliadau rhaglen

Mae rheoliadau ar astudio Prifysgol Oxford Brookes, yn cynnwys y rhai hynny ar asesu a dilyniant, ac ymddygiad, yn ogystal â rheoliadau cyffredinol a pholisïau academaidd eraill yn berthnasol. Gall rhain fod yn newid a gellir eu cyrchu ar: http://www.brookes.ac.uk/regulations/.

### 10.1. Amodau'r Dyfarniad

Seilir y radd gyffredinol ar gyfartaledd y tri asesiad crynodol. Dyfernir gradd Methu, Cyfeirio, Pas, Teilyngdod neu Ragoriaeth. I ennill y dyfarniad rhaid i chi gwrdd â'r meini prawf asesu o fewn y dedleins a osodwyd. Hefyd, i ennill y dyfarniad mae gofyn i chi gwblhau braslun prosiect a chynllun ar gyfer eich prosiect yn y gweithle. Rydyn ni'n gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig, gan ddefnyddio'r templedi aseiniad.

### 10.2. Ail-gyflwyno

Gall myfyrwyr heb basio'r asesiad crynodol, ail-gyflwyno'r gwaith unwaith yn rhagor. Caiff dedleins newydd eu gosod ar gyfer yr ail-gyflwyno gan ymgynghori gyda'r ymgeisydd. Bydd myfyrwyr yn derbyn adborth a fydd yn nodi'r prif resymau pam na wnaeth yr asesiad basio. Bydd methu â chyflwyno'r gwaith neu basio'r asesiad, ar ôl yr ail-asesu yn golygu bod y myfyriwr yn methu'r cwrs. Os bydd yn llwyddo yn yr ail-asesu yr uchafswm gradd a ddyfernir ydy Pas o 50%.

## 10.3. Ail-sefyll

Bydd gan fyfyriwr sy'n methu'r cwrs er enghraifft drwy fethu â phasio'r ail-gyflwyno, gyfle i ail-sefyll unwaith yn rhagor. Mae hyn yn golygu y bydd gan y myfyriwr ymgais arall ar asesiad y cwrs h.y. cyflwyno'r asesiad ac, os oes angen ei ail-gyflwyno unwaith yn rhagor. Bydd hyn yn golygu cost ychwanegol. Os bydd yn llwyddo yn yr ail-sefyll, yr uchafswm gradd a ddyfernir ydy Pas o 50%. Ceir polisi'r Brifysgol ar Ail-sefyll ar: https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/resits-and-retakes/.

## 10.4. Ymestyn y Dedleins

Rhaid cyflwyno pob gwaith asesedig erbyn y dedleins a osodwyd. Os byddwch yn hwyr yn cyflwyno'r gwaith heb unrhyw eglurhad, fel arfer tybir eich bod wedi methu'r asesiad. Os bydd amgylchiadau tu hwnt i'ch rheolaeth (er enghraifft, amgylchiadau meddygol) yn effeithio ar eich gallu i gwrdd â dedlein neu fynychu digwyddiad asesu (megis cyflwyniad) yna mae'n hanfodol eich bod yn defnyddio'r Polisi Amgylchiadau Eithriadol. Am ragor o wybodaeth amdano, gan gynnwys sut i wneud cais, ewch ar: https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/exceptional-circumstances/.

## 10.5. Hyd a Dull Astudio

Astudir y rhaglen yn rhan amser. Lluniwyd i'w chwblhau mewn deunaw mis o astudio. I gymhwyso ar gyfer y dyfarniad rhaid bod myfyrwyr wedi cwblhau a phasio pob modiwl o fewn tair blynedd o ymrestru ar y rhaglen.

## 10.6. Tynnu Nôl o'r Rhaglen a Gweithdrefnau Priodoldeb

Gellir tynnu nôl o'r rhaglen yn wirfoddol neu bod methu â phasio meini prawf asesu wedi peri bod rhaid tynnu nôl. Bydd myfyrwyr yn derbyn cynllun asesu ar gyfer unrhyw asesiad crynodol sydd wedi'i gwblhau. Os byddwch yn gadael y rhaglen yn gynnar (heb gwblhau pob modiwl a derbyn y dyfarniad llawn), byddwch yn derbyn trawsgrifiad a llythyr ymadael sy'n cadarnhau'r enw, y lefel, credyd a chanlyniadau'r modiwl(au) a gwblhawyd yn llwyddiannus.

Mae dysgu yn seiliedig ar waith yn elfen hanfodol o'r rhaglen a'r meini prawf mynediad felly yn cynnwys yr angen i fyfyrwyr gael eu cyflogi ym maes gofal cymdeithasol. Os byddwch yn newid cyflogaeth yn ystod y rhaglen, bydd hi'n bwysig i chi adolygu gyda'ch cyflogwr newydd ac IPC y trefniadau i chi barhau ar y rhaglen, ac i gwblhau cytundeb ysgrifenedig newydd (atodiad 1). Er y bydd IPC yn ymdrechu i ymaddasu a delio ag amgylchiadau cyflogaeth newydd myfyrwyr, efallai na fydd yn bosibl i chi gwblhau'r rhaglen os byddwch yn newid cyflogaeth yn ystod y rhaglen, yn enwedig os byddwch yn gadael maes gofal cymdeithasol.

Mae Safonau Arferion Proffesiynol (Standards Relating to Professional Practice) Prifysgol Oxford Brookes yn berthnasol i'r rhaglen hon. Os, yn ystod y rhaglen, y bydd gennym bryderon am eich priodoldeb i fod yn weithiwr cymdeithasol neu berson proffesiynol arall, byddwn yn hysbysu'r asiantaeth sy'n eich cyflogi a Gofal Cymdeithasol Cymru (neu gorff proffesiynol priodol).

## 10.7. Achredu Dysgu a Phrofiad Blaenorol

Gallai ymgeiswyr â chredyd blaenorol o gyrsiau eraill gael eu derbyn gyda chredyd ar gyfer, ac felly'n cael eu heithrio o ran o'r rhaglen hon drwy broses APL (Achredu Dysgu Blaenorol). Cynhelir asesu dysgu blaenorol (APL) neu brofiad blaenorol (APEL) yn unol â'r egwyddorion, y gweithdrefnau a'r canllawiau a geir yng Nghanllawiau'r Brifysgol ar Gronni Credyd a Throsglwyddo. Os rhoddir credyd am achredu eu profiad blaenorol (APEL) efallai bydd gofyn i'r myfyriwr ymgymryd ag asesiad er mwyn pennu gradd.

## 10.8. Arfer Academaidd

Bwriad yr holl asesiadau ydy sefydlu sgiliau, galluoedd, deall a gwybodaeth pob myfyriwr unigol sy'n gwneud yr asesiad. Ystyrir twyll fel ymddygiad sy'n bwriadu camarwain y Brifysgol i gydnabod lefel gau yng nghyrhaeddiad y myfyriwr. Gwaherddir pob ffurf o dwyllo, ond rhaid i ni dynnu eich sylw am yr angen i osgoi llen-ladrata – y term am ddefnyddio ffynonellau heb eu cydnabod mewn gwaith i'w asesu. I osgoi llen-ladrad, rhai i chi sicrhau fod eich dyfyniadau, o ble bynnag, yn cael eu dynodi'n llawn a'u priodoli yn y man maen nhw'n digwydd yn nhestun eich gwaith drwy un o'r dulliau safonol o gyfeirio. Nid yw'n ddigon rhestru'r adnoddau llyfryddiaeth ar ddiwedd eich aseiniad os na fyddwch yn cydnabod yr union ddyfyniadau yn y testun. Nid yw ychwaith yn dderbyniol i newid rhai o'r geiriau neu drefn y brawddegau, os byddwch drwy beidio cydnabod y ffynhonnell yn briodol, yn rhoi'r argraff mai eich gwaith chi ydyw. Cyfeirir unrhyw achosion posibl o lên-ladrad, neu Gamymddygiad Academaidd (Academic Misconduct), i swyddog arbenigol, a elwir yn Swyddog Ymddygiad Academaidd neu ACO. Bydd yr ACO yn ymchwilio i achos, yn cyfweld y myfyriwr ac yn dyfarnu un o'r cosbau dynodedig (yn seiliedig ar dariff cytunedig ar gyfer gwahanol lefelau llên-ladrad).

Rhaid i chi allu dangos mai eich gwaith chi eich hunan yw'r gwaith cwrs y byddwch chi'n ei gyflwyno i'w asesu. Rhaid i chi felly gadw pob dogfen waith (electronig a phapur) a ddefnyddiwyd gennych neu a grëwyd wrth baratoi'r aseiniad, megis llungopïau o ffynonellau a thudalennau rhyngrwyd, eich nodiadau eich hun ar eich darllen a pharatoi a lle cynhaliwyd ymchwil sylfaenol, holiaduron wedi'u cwblhau neu amserlenni cyfweld, manylion y broses ddadansoddi, nodiadau maes ac yn y blaen. Yn bwysicaf oll, dylech gadw drafftiau cynnar datblygiad eich gwaith cwrs fel tystiolaeth o wreiddioldeb eich Gwaith, drwy arbed pob adolygiad i ffeil gydag enw gwahanol. Dylid cadw'r deunydd hwn tan ar ôl i'r canlyniadau modiwl gael eu cyhoeddi.

Os nad ydych yn rhy hyderus yng nghywirdeb eich Cymraeg neu Saesneg ysgrifenedig, efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu trwy wirio'ch gwaith. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n gamymddygiad academaidd, a allai arwain at gamau disgyblu. Mae canllawiau'r Brifysgol am brawf-ddarllen ar gael yma: "guidance about proofreading". Hefyd, os defnyddir gwasanaeth gwirio neu brawf-ddarllen, mae Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn gofyn i chi ddatgan hyn ar gychwyn eich gwaith, gan roi enw'r person a wnaeth hyn i chi.

Arf yn seiliedig ar y we yw Turnitin sy’n cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu arferion academaidd da wrth iddyn nhw baratoi gwaith i’w asesu. Mae’r arf hwn sy’n cydweddu â thestun yn caniatáu i’r staff academaidd wirio na wnaed defnydd amhriodol o ffynonellau ac nad yw gwaith myfyrwyr wedi’i lên ladrata drwy ei gymharu â basau data sy’n cael eu diweddaru’n barhaus (gan gynnwys tudalennau’r we a gwaith myfyrwyr). Mae Turnitin yn cynhyrchu ‘Adroddiad ar Wreiddioldeb ('Originality Report') ar gyfer pob darn o waith a gyflwynir sy’n nodi popeth yn aseiniad y myfyriwr sy’n ymdebygu i’r ffynonellau seiliedig ar y we ar ei fas data, ac felly’n gallu darparu cyfle i staff i gynorthwyo myfyrwyr ddatblygu dulliau priodol ar gyfer dyfynnu yn ogystal â diogelu gonestrwydd academaidd myfyrwyr. Maen bosib y defnyddir Turnitin fel rhan o ymchwiliad i achos honedig o gamymddwyn academaidd ond yn sylfaenol, mae’n cael ei ddefnyddio i gynorthwyo datblygiad academaidd myfyrwyr a gwella arferion academaidd da. Rhaid i chi gyflwyno geiriau (testun) eich aseiniad i'w archwilio drwy 'Turnitin' ac adrodd beth ydy eich sgôr gwreiddioldeb Turnitin ar dempled eich aseiniad. Ceir polisi’r Brifysgol ar Turnitin ar: https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/turnitin/.

Mewn achosion lle mae tiwtor yn amau bod llên ladrad mewn gwaith myfyriwr ac yn penderfynu ei anfon at Dîm Ymchwilio Myfyrwyr a Datrys, rhaid i’r tiwtor lawrlwytho copi o adroddiad gwreiddioldeb Turnitin y Myfyriwr a’i anfon yn uniongyrchol at y myfyriwr. Diben hynny ydy helpu’r myfyriwr i baratoi ar gyfer unrhyw ymchwiliad.

## 10.9. Apeliadau

Gellir cael hyd i Reoliad 6.17 Apeliadau Academaidd Prifysgol Oxford Brookes ar http://www.brookes.ac.uk/regulations/. Mae’r weithdrefn hon yn caniatáu i chi apelio yn erbyn canlyniad eich asesiad os credir bod camgymeriad wedi digwydd ar un o seiliau a nodir yn y rheoliadau:

- bod camgymeriad gweinyddol neu rhyw amryfusedd gweithdrefnol arall wedi digwydd wrth gynnal yr asesiad a pheri i’r penderfyniad fod yn sylweddol wahanol
- yr effeithiwyd ar y broses asesu gan ragfarn
- bod perfformiad y myfyriwr yn yr asesiad wedi cael ei effeithio gan amgylchiadau eithriadol perthnasol nad oedd, am reswm dilys, heb fod yn hysbys i'r pwyllgor arholi

Rheolir y broses o gyflwyno apêl academaidd gan Y Tîm Ymchwilio Myfyrwyr a Datrys (https://www.brookes.ac.uk/students/sirt/academic-appeals/). Os hoffech gyngor annibynnol, fe’ch cynghorir yn gryf i ymgynghori â Gwasanaeth Brookes sef Brookes Union Advice Service a all eich helpu i benderfynu beth ydy’ch opsiynau a’ch cynorthwyo i gyflwyno’ch achos, os oes gennych sail i wneud hynny.

## 10.10. Pryderon a Chwynion

Os bydd gennych unrhyw bryderon neu gwynion am y cwrs, rydyn ni’n eich annog i drafod y mater yn y lle cyntaf gyda’r Tiwtor Arweiniol neu’r Ymgynghorydd Academaidd. Os na fydd hyn yn briodol, trafodwch y mater gyda Chyfarwyddwr Cwrs IPC a fydd yn ymchwilio i’ch pryder. Fodd bynnag, gall myfyrwyr hefyd gyflwyno achwyniad ffurfiol i’r Brifysgol o fewn dau fis o’r digwyddiad. Rheolir y broses o

gyflwyno cwyn gan Dîm Ymchwilio Myfyrwyr a Datrys (https://www.brookes.ac.uk/students/sirt/academic-appeals/). Os hoffech gyngor annibynnol, gallwch hefyd gysylltu â Gwasanaeth Cynghori Brookes sef Brookes Union Advice Service.

# Tystysgrif Ôl-radd Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol

## Cytundeb rhwng y Myfyriwr a'r Asiantaeth Gyflogi

1. Mae'r cytundeb hwn yn datgan ymrwymiadau…………......................……...……., yr asiantaeth gyflogi, a ……...............……...........………………...……., cyfranogwr yn Nhystysgrif Ôl-radd Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) mewn Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod yr holl bartïon yn glir am ofynion y rhaglen ac mae angen ei gwblhau a'i lofnodi wrth gofrestru ar y rhaglen.

2. Bydd yr asiantaeth gyflogi yn gwneud y canlynol:

   a) Talu ffioedd y rhaglen a osodwyd gan Brifysgol Oxford Brookes.
   b) Sicrhau o leiaf 1 diwrnod astudio am bob modiwl a astudir er mwyn cynorthwyo'r cyfranogwr i gwblhau asesiadau o fewn y dedleins.
   c) Cynorthwyo a chefnogi'r cyfranogwr gydag unrhyw anghenion mynediad neu gyfathrebu sydd ganddo/ganddi.
   d) Sicrhau bod gan y cyfranogwr fynediad i'r rhyngrwyd ac yn gallu cymryd rhan ymhob gweithgaredd dysgu ar-lein.
   e) Cynorthwyo'r cyfranogwr drwy gydol y rhaglen. Yn benodol, bydd rheolwr llinell y cyfranogwr, neu ddirprwy addas yn cyfrannu at asesiad 360 gradd ar ddechrau ac ar ddiwedd y rhaglen, bydd yn rhan o drafodaethau am bynciau'r asesiadau a bydd yn cwblhau arsylliad yn y gweithle o'r ymarfer.

3. Bydd y cyfranogwyr yn gwneud y canlynol:

   a) Cael mynediad i'r rhyngrwyd i gymryd rhan ymhob gweithgaredd dysgu ar-lein, i lawrlwytho adnoddau a chyflwyno aseiniadau.
   b) Hysbysu'r IPC o unrhyw anghenion mynediad neu gyfathrebu perthnasol sydd ganddyn nhw o ran y rhaglen.
   c) Ymgymryd â'r paratoi cefndirol, yr ymchwil a'r hunan-astudiaeth sydd eu hangen i gwrdd â gofynion y rhaglen.
   d) Cytuno ar bwnc y prosiect yn y gweithle a'r astudiaeth achos sydd i'w asesu, gyda noddwr eu rhaglen neu berson addas arall.
   e) Cwrdd â'r dedleins ar gyfer cyflwyno asesiadau.

4. Sylwer bod gofyn i IPC riportio ar bresenoldeb cyfranogwyr ar y rhaglen a'r cynnydd wrth gyflwyno asesiadau i'r asiantaeth gyflogi a noddwr y rhaglen.

Arwyddwyd: ……………….......……...……...…...……Y Cyfranogwr

Ar ran yr asiantaeth gyflogi

Dyddiad

OXFORD BROOKES UNIVERSITY

ipc institute of public care

## Trusted partner in public care

The Institute of Public Care is part of Oxford Brookes University. We provide applied research and evaluation, consultancy, and training to help NHS trusts, government bodies, councils, charities and commercial organisations make a positive impact on people's health and wellbeing.

## For more information


Institute of Public Care

Oxford Brookes University

Harcourt Hill Campus

Oxford

OX2 9AT

Tel: +44 (0)1865 790312

https://ipc.brookes.ac.uk/

https://www.brookes.ac.uk/

https://twitter.com/ipc_brookes